Y tymor ysgol i orffen ar 17 Gorffennaf

Bydd ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gorffen ar gyfer gwyliau'r haf ar 17 Gorffennaf.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu ymestyn y tymor am wythnos ychwanegol, ond nid yw wedi llwyddo i ddod i gytundeb â'r undebau. Mae llawer o staff eisoes yn methu â mynychu safleoedd ysgolion am resymau meddygol teilwng, a gallai'r wythnos wirfoddol ychwanegol a gynigir gan y Senedd arwain at brinder staff mewn rhai ysgolion, ac o bosibl rhai ysgolion yn methu ag agor o gwbl.

Mae hyn yn golygu y bydd yr ysgol yn ailagor ddydd Llun 29 Mehefin am gyfnod o dair wythnos er mwyn i'r plant gael cyfle i ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion i roi trefniadau newydd ar waith i'w hailagor, lle bydd grwpiau blwyddyn yn cael eu rhannu'n ddosbarthiadau llawer llai.

Mae ysgolion bellach yn gweithio'n galed i ddarparu ar gyfer pob disgybl yn ystod y cyfnod byrrach hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant: “Mae'n siomedig mai dim ond am dair wythnos y bydd yr ysgolion ar agor cyn gwyliau'r haf.

“Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ein plant yn cael y cyfle i fynd i'r ysgol cyn yr haf er mwyn iddynt allu dal i fyny gyda'u ffrindiau ac ailgysylltu â'u hathrawon.

“Byddant yn gallu rhannu eu profiadau o'r 12 wythnos diwethaf a dod i arfer â'r amgylchedd ysgol newydd.

“Bydd eu hathrawon hefyd yn gallu eu cefnogi o ran y ffordd newydd hon o ddysgu a'u paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi.

“Mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn, ac rwy'n deall pryderon y rhieni, ond gyda'n gilydd gallwn ddod drwy hyn a gallwn sicrhau bod profiad ein plant o ddychwelyd i'r ysgol mor arferol ac mor gadarnhaol â phosibl.

“Hoffwn hefyd ddiolch i staff yr ysgolion am eu holl waith caled a'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn.”